# Uned 9: Rheoli Amgylcheddau Amaethyddol

**Côd yr Uned:** **F/600/9610**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i ddysgwyr y sgiliau a’r wybodaeth y mae eu hangen i ddeall sut mae amaeth yn cyd-fynd â'r amgylchedd, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r berthynas rhwng arferion ffermio a'r amgylchedd, a sut gellir ei rheoli.

## Cyflwyniad i'r uned

Amaeth yw'r prif ddefnydd tir yn y Deyrnas Unedig a gall, felly, gael dylanwad sylweddol ar yr amgylchedd ar draws ardaloedd eang o'r wlad. Wrth i ddiddordeb a phryder am ddyfodol yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd, cadwraeth ynni a diogelwch bwyd gynyddu ar bob lefel, mae'n debygol bod natur y berthynas hon yn parhau i ddenu diddordeb a chraffu sylweddol yn genedlaethol ac yn wleidyddol.

Mae'r uned hon yn drosolwg o effaith arferion amaethyddol ar yr amgylchedd, ond yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ganolfannau addasu'r ffocws i adlewyrchu'r materion amgylcheddol pwysicaf ar y pryd. Mae wedi'i dylunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol, a fydd o ddefnydd wrth reoli unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol mewn lleoliad ffermio.

Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i archwilio effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol gwahanol arferion ffermio, ac i argymell sut i leihau effeithiau negyddol. Byddant yn ymchwilio i ddeddfwriaeth, codau ymarfer a sefydliadau amgylcheddol a'u heffaith ar fusnesau ffermio. Bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn datblygu sgiliau wrth gyflawni tasgau rheoli cynefin ymarferol, er mwyn cyflawni amcanion rheoli cynefin penodol mewn cyd-destun amaethyddol.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Ddeall effaith y gwahanol arferion ffermio ar yr amgylchedd

2 Gwybod am ddeddfwriaeth amgylcheddol arwyddocaol a chodau ymarfer

3 Gallu creu cynllun rheoli cynefin

4 Gallu cyflawni tasgau rheoli cynefin ymarferol.

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall effaith y gwahanol arferion ffermio ar yr amgylchedd

*Yr effaith ar yr amgylchedd:* gweledol; sŵn; ffisegol ee gwastraff, rheoli llygredd, effaith ar dopograffi; defnydd o ddeunyddiau crai ac ynni; effaith ar rywogaethau planhigion ac anifeiliaid; effaith union a hir dymor

*Arferion ffermio:* confensiynol ee mentrau cnydau a da byw gan ddefnyddio triniaethau arferol ac ataliol; defnyddio cyfarpar mecanyddol; ffermio er mwyn cynhyrchu ynni; cynaliadwy ee organig, paramaethu

## 2 Gwybod am ddeddfwriaeth amgylcheddol arwyddocaol a chodau ymarfer

*Deddfwriaeth amgylcheddol a chodau ymarfer:* effaith deddfwriaeth berthnasol gyfredol a chodau ymarfer ee Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rheoliadau Gwrychoedd 1997, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Cyfarwyddeb Trawsgydymffurfio Nitradau, Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2006, Rheoliadau Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Amaeth) (Lloegr) 2006, Côd a Rheoliadau Llosgi Grug a Gwair 2007

*Sefydliadau amgylcheddol:* rôl cyrff rheoleiddio ee Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru; sefydliadau anllywodraethol ee Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV), Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG), Cysylltu'r Amgylchedd a Ffermio (FWAG), Ffermwyr a Thyfwyr Organig, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Save our Songbirds, Cymdeithas y Pridd, ymddiriedolaethau natur lleol, Coed Cadw

## 3 Gallu creu cynllun rheoli cynefin

*Amcanion rheoli cynefin:* amcanion priodol ee diogelu rhywogaethau, cyflwyno rhywogaethau, cynnal a chadw neu sefydlu cynefin, bodloni gofynion cynllun amaeth-amgylcheddol megis stiwardiaeth amgylcheddol

*Dulliau rheoli cynefin:* dethol dulliau priodol ee gwaredu rhywogaethau planhigion goresgynnol, gwaredu neu gwtogi coed goresgynnol, clirio prysg, adfer pyllau, plannu coed, chwynnu

## 4 Gallu cyflawni tasgau rheoli cynefin ymarferol

*Tasgau rheoli cynefin:* dethol tasgau addas ee clirio pyllau, plannu coed, coedlannu, gosod gwrychoedd, tocbrennu, pladuro, torri dryslwyni, gwaredu planhigion neu goed dieisiau, chwynnu, tomwelltu, clirio sbwriel neu weddillion


 © Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 gwerthuso'r ffyrdd mae arferion ffermio confensiynol yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd [YA] | | |
| Ll2 gwerthuso'r ffyrdd mae arferion ffermio cynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd [YA] | | |
| Ll3 trafod ffyrdd o leihau effaith negyddol arferion ffermio ar yr amgylchedd [YA] | T1 trafod goblygiadau ymarferol lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd | |
| Ll4 disgrifio effaith deddfwriaeth amgylcheddol gyfredol a chodau ymarfer ar weithgareddau ffermio | | |
| Ll5 amlinellu rôl sefydliadau amgylcheddol penodol yn y diwydiant amaethyddol | T2 trafod effaith deddfwriaeth a sefydliadau amgylcheddol ar arferion ffermio mewn busnes ffermio a ddewiswyd | Rh1 gwerthuso'r cyfraniad y gall cynlluniau amaeth-amgylcheddol ei wneud i fusnes ffermio a ddewiswyd |
| Ll6 dethol dulliau rheoli cynefin i gyflawni amcanion penodol | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll7 creu amserlen ar gyfer gwaith rheoli cynefin | T3 egluro'r rhesymeg dros gynnwys y dulliau rheoli cynefin a ddewiswyd | Rh2 trafod unrhyw rwystrau posib i gwblhau'r gwaith rheoli cynefin a sut gellir eu goresgyn |
| Ll8 cyflawni asesiad risg priodol cyn cyflawni gwaith ymarferol rheoli cynefin a ddewiswyd [HR] | | |
| Ll9 nodi a threfnu cyfarpar amddiffyn personol (PPE), offer a deunyddiau angenrheidiol ar gyfer cyflawni gwaith ymarferol rheoli cynefin a ddewiswyd [HR] | | |
| Ll10 cyflawni'n ddiogel dasgau rheoli cynefin ymarferol i fodloni amcanion penodol. [DM, HR] | T4 adolygu effeithiolrwydd cwblhau tasgau wrth gyflawni amcanion penodol. | Rh3 argymell gweithrediadau a gwelliannau yn y dyfodol er budd pellach y cynefin. |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA - ymholwyr annibynnol |
| | MC - meddylwyr creadigol |
| | DM - dysgwyr myfyriol |
| | GT - gweithwyr tîm |
| | HR - hunan-reolwyr |
| | CE - cyfranogwyr effeithiol |

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau â chynefinoedd addas a bydd cysylltiadau â lleoliadau profiad gwaith.

Gan fod yr uned hon yn cynnwys gweithgaredd ymarferol mae'n bwysig bod iechyd a diogelwch yn cael ei wreiddio wrth gyflwyno, a bod y dysgwyr yn datblygu sgiliau wrth asesu a rheoli risgiau.

Mae deilliant dysgu 1 yn gofyn bod y dysgwyr yn adolygu'r gwahanol arferion sydd ynghlwm wrth systemau ffermio confensiynol a chynaliadwy, ac yn cymharu'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd. Byddai ymweliadau â gwahanol fentrau ffermio yn ddefnyddiol, yn enwedig os bydd y dysgwyr yn datblygu rhestr wirio effaith ar yr amgylchedd ymlaen llaw. Gallai siaradwyr gwadd hefyd ysgogi diddordeb, er enghraifft ffermwr sydd yn ddiweddar wedi newid o system ffermio gonfensiynol i un organig, neu ffermwr sy'n rhan o'r diwydiant cynhyrchu ynni.

Mae deilliant dysgu 2 yn debygol o gael ei gyflwyno drwy weithgaredd ystafell ddosbarth ffurfiol, trafodaethau ac ymchwil gan y dysgwyr. Gallai sgyrsiau gan gynrychiolwyr unrhyw sefydliadau amgylcheddol fod yn ddefnyddiol, ynghyd ag ymweliad ag ymddiriedolaeth natur leol.

Mae deilliannau dysgu 3 a 4 yn ymwneud â thasgau ymarferol rheoli cynefinoedd. Mae mewnbwn ffurfiol yn debygol o fod yn angenrheidiol i helpu dysgwyr i ddeall y math o amcanion rheoli cynefin y gellid eu gosod o bosib, a sut mae'r rhain yn effeithio ar y dewis o ddulliau rheoli cynefin a ddefnyddir. Bydd y deilliannau dysgu hyn yn galw am elfen ymarferol sylweddol fel bod y dysgwyr yn hyderus wrth ymgymryd â thasgau rheoli cynefin, ac yn gallu cwblhau'r tasgau hyn yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned |
| **Aseiniad 1 - Effaith ar yr Amgylchedd** (Ll1, Ll2, Ll3, T1).<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori: diffinio effaith ar yr amgylchedd, gweithgaredd ystafell ddosbarth i gynhyrchu rhestrau gwirio effaith ar yr amgylchedd i'w defnyddio wrth ymweld â ffermydd |
| Gweithgaredd ystafell ddosbarth: y gwahaniaeth rhwng arferion ffermio confensiynol a chynaliadwy |
| Ymweliadau â mentrau ffermio confensiynol a chynaliadwy |
| Myfyrio yn y dosbarth ar y gwahaniaethau, gwaith dilynol a nodwyd ar gyfer yr asesiad |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Astudio personol/cwblhau aseiniad/cefnogaeth unigol |
| **Aseiniad 2: Deddfwriaeth a Sefydliadau** (Ll4, Ll5, T2, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r brîff a'r pwnc |
| Sesiwn theori: cyflwyniad i ddeddfwriaeth |
| Gweithgarwch dosbarth: paratoi trafodaeth am ddeddfwriaeth o safbwyntiau gwahanol |
| Astudio personol/cwblhau aseiniad/cefnogaeth unigol |
| Siaradwr gwadd o sefydliad amgylcheddol, neu ymweld ag ymddiriedolaeth natur leol |
| Sesiwn theori: amrywiaeth o sefydliadau a'u cwmpas, a sut i asesu eu heffaith ar ffermio |
| Sesiwn theori: cynlluniau amaeth-amgylcheddol, eu gofynion a'u buddion |
| Astudio personol/cwblhau aseiniad/cefnogaeth unigol |
| **Aseiniad 3: Cynllun Rheoli Cynefinoedd** (Ll6, Ll7, T3, Rh2) ac **Aseiniad 4: Tasgau Rheoli Cynefin** (Ll8, Ll9, Ll10, T4, Rh3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniadau |
| Gweithgaredd ymarferol: ystod o dasgau rheoli cynefin |
| Dethol cynefin ac amcanion |
| Astudio personol/cwblhau aseiniad/cefnogaeth unigol |
| Cyflwyno amserlen a'i thrafod |
| Ymarferol: tasgau rheoli cynefin a gwblhawyd |
| Amser astudio personol i fyfyrio ymhellach a gwelliannau |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

I lwyddo, rhaid i'r dysgwyr fodloni pob un o'r meini prawf llwyddo.

Ar gyfer Ll1 a Ll2 bydd angen i'r dysgwyr nodi o leiaf dair effaith gadarnhaol a negyddol posib ar yr amgylchedd a achosir gan systemau ffermio confensiynol a chynaliadwy. Bydd angen ymdrin â phob rhan o gynnwys yr uned, ond gall fod yn effaith gadarnhaol neu negyddol. Dylid annog y dysgwyr i ystyried  dileu effeithiau union a thymor hir posib y systemau ffermio yr ymchwilir iddynt. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf astudiaeth achos, adroddiad, tabl neu gyflwyniad.

Ar gyfer Ll3, bydd angen i'r dysgwyr adolygu'r effeithiau negyddol a nodwyd yn Ll1 a Ll2, ac argymell ffyrdd y gellid lleihau o leiaf dair ohonynt. Gellid cyflwyno'r dystiolaeth yn weledol, er enghraifft poster wedi'i anodi neu daflen, neu adroddiad llafar gyda nodiadau crynodol.

Ar gyfer Ll4, mae angen i'r dysgwyr ganolbwyntio ar effaith deddfwriaeth berthnasol a chodau ymarfer ar arferion ffermio. Gallai'r dystiolaeth gynnwys astudiaeth achos, a chael ei chyflwyno trwy gyflwyniad llafar, adroddiad neu boster wedi'i anodi.

Mae Ll5 yn gofyn i'r dysgwyr amlinellu rôl sefydliadau amgylcheddol penodol yn y diwydiant amaethyddol. Dylai'r tiwtor nodi detholiad priodol neu gytuno ar hyn trwy drafod gyda'r dysgwyr. Dylai'r detholiad gynnwys o leiaf dri sefydliad. Gallai'r dystiolaeth fod yn adroddiad gan ddefnyddio astudiaeth achos, neu'n gyflwyniad llafar.

Rhagwelir y gellid asesu Ll6 ac Ll7 gan ddefnyddio'r un darn o dystiolaeth, lle bydd y dysgwyr yn paratoi amserlen anodedig ar gyfer gwaith rheoli cynefin sy'n nodi'n glir y dulliau a ddetholwyd. Dylai'r amcanion ar gyfer y gwaith rheoli cynefin gael ei nodi gan y tiwtor neu dylid cytuno ar un drwy drafod gyda'r dysgwyr.

Mae asesiad Ll8, Ll9 ac Ll10 yn gysylltiedig. Gallai hyn fod yn seiliedig ar rai o'r tasgau rheoli cynefin a nodwyd yn yr amserlen a grëwyd ar gyfer Ll6 ac Ll7, ond mae'n bosib na fyddai hyn yn ymarferol bosib bob tro. Mae Ll8 yn gofyn bod y dysgwyr yn cwblhau asesiad risg cyn cwblhau tasgau ymarferol, ac ar gyfer Ll9 mae angen iddynt nodi'r cyfarpar amddiffyn personol (PPE), yr offer a'r cyfarpar angenrheidiol. Gallai'r dystiolaeth gynnwys cwblhau pro forma priodol. Ar gyfer Ll10, bydd angen i'r dysgwyr gwblhau o leiaf ddwy dasg rheoli cynefin, y bydd angen cytuno arnynt gyda'r tiwtor ymlaen llaw. Gallai'r dystiolaeth gynnwys arsylwadau uniongyrchol y tiwtor, neu dystiolaeth a gasglwyd o leoliad profiad gwaith priodol. Os asesir yn ystod lleoliad gwaith, dylid darparu datganiadau tystion gan gynrychiolydd addas a'u dilysu gan y tiwtor.

I gyflawni teilyngdod rhaid i'r dysgwyr fodloni'r pedwar maen prawf teilyngdod yn ogystal â bodloni'r meini prawf llwyddo'n llwyr.

Ar gyfer T1, bydd angen i'r dysgwyr ddatblygu ymhellach y dystiolaeth ar gyfer Ll3, a dangos eu dealltwriaeth o oblygiadau ymarferol cyflawni'r newidiadau a awgrymir.

I gyflawni T2 mae angen i'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a ddangoswyd yn Ll4 ac Ll5 i egluro effaith deddfwriaeth a sefydliadau amgylcheddol ar fusnes fferm penodol. Gall y tiwtor ddewis y busnes, neu gall y dysgwyr ddewis wedi trafod gyda'r tiwtor.

Ar gyfer T3, bydd gofyn i'r dysgwyr resymegu'r dulliau rheoli cynefin a ddewiswyd, a allai fod trwy anodi'r amserlen a gynhyrchwyd ar gyfer Ll6 ac Ll7. Dylai'r rhesymegu fod yn glir ac yn seiliedig ar ba mor ymarferol ac effeithiol yw'r dulliau a ddewiswyd.

Ar gyfer T4, bydd gofyn bod y dysgwyr yn gwerthuso'r gwaith ymarferol a gyflawnwyd, ac yn asesu pa mor effeithiol mae'n cyflawni'r amcanion a osodwyd.

I gyflawni rhagoriaeth, rhaid i'r dysgwyr fodloni'r tri maen prawf rhagoriaeth yn ogystal â bodloni'r meini prawf llwyddo a theilyngdod yn llwyr.

Ar gyfer Rh1 rhaid i'r dysgwyr egluro'r cyfraniad y gall cynlluniau amaeth-amgylcheddol ei wneud i fusnes ffermio a ddewiswyd. I osgoi dyblygu tystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol defnyddio'r busnes fferm a adolygwyd ar gyfer T2.

Ar gyfer Rh2, bydd gofyn i'r dysgwyr nodi unrhyw rwystrau posib i gwblhau'r gwaith rheoli cynefin a sut gellir eu goresgyn. Gall tystiolaeth fod yn anodi'r amserlen a gynhyrchwyd ar gyfer Ll6, Ll7 a T3 ymhellach, neu adroddiad ysgrifenedig neu lafar atodol.

Ar gyfer Rh3, disgwylir i ddysgwyr ddatblygu'r gwerthusiad y gwnaethant ei gwblhau yn T4 yn argymhellion ar gyfer gweithgaredd a gwelliannau yn y dyfodol er lles pellach y cynefin. Dylai hyn fod yng nghyd-destun yr amcanion gwreiddiol o hyd, ond gellir awgrymu amcanion eraill fel rhan o'r argymhelliad.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| **Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu** | **Teitl yr aseiniad** | **Senario** | **Dull asesu** |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1 | Yr effaith ar yr amgylchedd | Wedi ymweld â Fferm A a Fferm B, lluniwch adroddiad ysgrifenedig yn gwerthuso effeithiau cadarnhaol a negyddol amgylcheddol posib y ddwy fferm. Yn eich adroddiad rhowch awgrymiadau ar gyfer sut gallai rheolwr fferm ddelio'n ymarferol â thri o'r effeithiau hyn. | Adroddiad ysgrifenedig |
| Ll4, Ll5, T2, Rh1 | Deddfwriaeth a Sefydliadau | Fel ymgynghorydd rheoli fferm rydych yn rhoi cyngor i fferm leol. Lluniwch daflen wybodaeth yn dangos effaith deddfwriaeth a sefydliadau amgylcheddol ar eu harferion ffermio, a sut gellir defnyddio cynlluniau amgylcheddol er lles y busnes. | Astudiaeth achos/taflen |
| Ll6, Ll7, T3, Rh2 | Cynllun Rheoli Cynefin | Ar gyfer yr amcanion rheoli cynefin y cytunwyd arnynt gan eich tiwtor, lluniwch amserlen ar gyfer y tasgau rheoli cynefinoedd a fydd yn galluogi cyflawni'r amcanion hyn. Rhaid anodi'r amserlen i ddangos pam y gwnaethoch ddewis pob dull, ac unrhyw rwystrau posib i'w cwblhau. | Amserlen weithgareddau wedi'i hanodi |
| Ll8, Ll9, Ll10, T4, Rh3 | Tasgau Rheoli Cynefin | Byddwch yn cwblhau cyfres o dasgau rheoli cynefin. Cyn pob tasg, cwblhewch asesiad risg a nodi a threfnu cyfarpar amddiffyn personol (PPE), offer a deunyddiau. Wedi i chi gwblhau'r tasgau, adolygwch pa mor effeithiol gwnaethoch eu cwblhau, a gwnewch argymhellion ar gyfer gweithgareddau a gwelliannau yn y dyfodol er lles pellach y cynefin. | Tasgau ymarferol<br><br>Asesiad risg wedi'i gwblhau a ffurflenni rhestri offer<br><br>Gwerthusiad wedi'i gwblhau |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Bod yn rhan o'r gwaith o gynnal a chadw ystâd |
| Cadwraeth a Gwella Cynefinoedd Prydain |
| **Lefel 3** |
| Elfen Ga15.2 Cynnal a chadw cynefin adar hela<br>Elfen CU88.1 Nodi'r angen am waith rheoli cynefin a'i gynllunio<br>Elfen CU88.2 Cydlynu gwaith rheoli cynefin a'i oruchwylio |
| Cyflawni Sgiliau Ystâd |
| Deall Rheoli Glaswelltir |

## Adnoddau hanfodol

Bydd ar y dysgwyr angen mynediad i fentrau fferm sy'n barod i waith gwella amgylcheddol gael ei gyflawni fel y gallant fod yn rhan o weithgareddau ymarferol cysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd. Cyn cyflawni unrhyw ymweliadau â ffermydd neu waith ymarferol mae'n hanfodol bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni, gan gynnwys defnyddio cyfarpar amddiffyn personol (PPE). Dylai'r dysgwyr hefyd gael mynediad i beiriannau megis tractorau a dylai fod digon o offer llaw ar gael i'r holl ddysgwyr fod yn rhan o weithgaredd ymarferol.

Bydd angen cael digon o adnoddau llyfrgell a TGCh er mwyn i'r dysgwyr ymchwilio i gynnwys yr uned, a byddai ymweliadau safle â mentrau ffermio confensiynol a chynaliadwy o fudd.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Gan fod disgwyl i'r dysgwyr arddangos eu dealltwriaeth o gymwysiadau ymarferol y pwnc, mae'n bwysig cael mewnbwn y cyflogwr. Gallai hyn fod yn gymysgedd priodol o bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau ffermio a'r rhai sy'n gweithredu mewn modd rheoleiddiol ac ymgynghorol.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Agate E – *Tree Planting and Aftercare: A Practical Handbook* (BTCV, 2001) ISBN 0946752257 Agate E – Woodlands: A Practical Handbook (BTCV, 2002) ISBN 0946752338

Andrews J a Rebane M – *Farming and Wildlife: A Practical Management Handbook* (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, 1994) ISBN 0903138670

Blyth J, Evans J, Mutch W a Sidwell C – *Farm Woodland Management, 2il Argraffiad* (Farming Press Books and Videos, 1991) ISBN 0852362196

Brooks A ac Agate E – *Hedging: A Practical Handbook* (BTCV, 1998) ISBN 0946752176

MacLean M – *New Hedges for the Countryside* (Farming Press Books and Videos, 1992) ISBN 0852362420

Mulvaghy G, Fladmark J ac Evans B – *Tomorrow's Architectural Heritage: Landscape and Buildings in the Countryside* (Mainstream Publishing, 1991) ISBN 1851583785

Parker S – *Green Files: Waste and Recycling* (Heinemann Educational Books, 2004) ISBN 0431183015 Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – *Ecosystems and Human Activity* (Collins Educational, 1994) ISBN 0003266443

Stokes A – *Health and Safety Overview for Practical Conservation Project: A Guide to Good Practice for Conservation Groups and Land Managers* (BTCV, 1999)

Watt T a Buckley G – *Hedgerow Management and Nature Conservation* (Imperial College Press, 1995) ISBN 0862660378

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.btcv.org.uk | Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain |
| www.biodynamic.org.uk | Y Gymdeithas Amaeth Biodynamig |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.environment-agency.org.uk | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| www.forestry.gov.uk | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| www.fwag.org.uk | Grŵp Ymgynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt |
| www.hse.gov.uk | Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch |
| www.lantra.co.uk | Cyngor Sgiliau Sector Lantra |
| www.naturalengland.gov.uk | Natural England |
| www.organicfarmers.org.uk | Organic Farmers and Growers |
| www.rspb.org.uk | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| www.soilassociation.org | Cymdeithas y Pridd |
| www.woodland-trust.co.uk | Coed Cadw |


Rheoli Amgylcheddau Amaethyddol – Rhifyn 1 – Hydref 2019 © Pearson Education Limited 2019

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | gwerthuso effaith arferion ffermio confensiynol a chynaliadwy ar yr amgylchedd<br>trafod dulliau o leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd |
| **Dysgwyr myfyriol** | cyflawni tasgau rheoli cynefin ymarferol yn ddiogel |
| **Hunan-reolwyr** | cyflawni asesiadau risg cyn cychwyn ar waith rheoli cynefin ymarferol<br>nodi a threfu cyfarpar amddiffyn personol (PPE), offer a deunyddiau<br>cyflawni tasgau rheoli cynefin ymarferol yn ddiogel |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cwblhau ymchwil i ddeddfwriaeth amgylcheddol |
| **Gweithwyr tîm** | cydweithio i greu rhestr wirio i werthuso effaith ar yr amgylchedd |
| **Hunan-reolwyr** | cwblhau gwaith aseiniadau |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | trafod deddfwriaeth amgylcheddol o safbwyntiau gwahanol |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | ymchwilio i ddeddfwriaeth a sefydliadau amgylcheddol |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion. | cwblhau gwaith aseiniadau |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | trafod deddfwriaeth amgylcheddol o safbwyntiau gwahanol<br>cytuno ar amcanion a thasgau rheoli cynefin |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | ymchwilio i ddeddfwriaeth amgylcheddol, sefydliadau ac effaith gan ymchwilio i ddulliau o leihau effaith negyddol ar yr amgylchedd |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | gwerthuso effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd<br>amlinellu deddfwriaeth a sefydliadau amgylcheddol<br>paratoi amserlen rheoli cynefin |

 © Pearson Education Limited 2019